Dweud eich Dweud

Cod ymarfer OFWAT ar ymgynghori

Ionawr 2002

Dweud eich Dweud:

Cod ymarfer OFWAT ar ymgynghori

Cynnwys Tudalen

1.	Rhagair	2
2.	Rhagarweiniad	3
3.	Y broses ymgynghori	5
4.	Yr Amserlen ar gyfer ymgynghori	7
5.	Dogfennau ymgynghorol	9
6.	Y ddogfen benderfyniadau	11

1 Rhagair

Yr ydym yn ceisio bod yn fwy agored, gan ddarparu gwybodaeth am ein gwaith a chymryd barn pobl sydd â diddordeb i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau.

Gall budd-ddalwyr goleuedig gyfrannu'n well at y ddadl a sicrhau felly fod ein penderfyniadau yn rhai ar sail tystiolaeth gadarn. Ceisiwn wneud yn siwr fod pob un sydd â diddordeb yn deall ein penderfyniadau. Hyderaf y bydd y cod ymarfer hwn yn ei gwneud yn haws i bobl fedru dweud eu dweud.

Philip Fletcher

Cyfarwyddwr Cyffredinol Gwasanaethau Dŵr

2 Rhagarweiniad

Ar 14 Ebrill 2000 cyhoeddwyd 'Dweud eich Dweud' – papur ymgynghorol ar sut mae Ofwat yn cynnwys budd-ddalwyr yn y broses o wneud penderfyniadau.

Gofynnodd y papur am sylwadau ar:

- Arddull ein papurau ymgynghorol.
- Ein cynlluniau ar gyfer cyrraedd yr ystod ehangaf a mwyaf priodol o bobl.
- Sut y gall pobl gyda diddordeb gymryd rhan yn ein proses ymgynghori.
- Yr amserlen y byddwn yn ei dilyn ar gyfer ymgynghori.
- Sut y byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniadau.

Cymerwyd yr ymatebion i ystyriaeth a chyhoeddwyd ein cod ymarfer cyntaf: "Dweud eich Dweud". Ym mis Tachwedd 2000, fel rhan o gynllun Moderneiddio'r Llywodraeth, cyhoeddodd Swyddfa'r Cabinet ei god ymarfer ar ymgynghori ysgrifenedig. Mae'r cod hwn yn berthnasol i'r holl ymgynghoriadau cyhoeddus yn y DU.

Erbyn hyn yr ydym wedi diwygio ein cod ymarfer gan gymryd y safonau cenedlaethol hyn i ystyriaeth.

Byddwn yn parhau i fonitro pa mor effeithiol yw ein cod ymarfer. Byddwn yn adrodd ar ein cynnydd yn ein adroddiad blynyddol.

Os oes gennych unrhyw sylwadau ar ein cod ymarfer, cofiwch gysylltu gyda ni (gweler tudalen 11 am fanylion).

Nod yr ymgynghoriad hwn yw gwella'r modd y byddwn yn gwneud penderfyniadau trwy sicrhau:

- Fod penderfyniadau yn cael eu gwneud ar sail tystiolaeth gadarn.
- Bod penderfyniadau yn cymryd barn a phrofiad y bobl a effeithir ganddynt i ystyriaeth.
- Ein bod yn ystyried opsiynau newydd a chreadigol.
- Bod modd gweithredu trefniadau newydd.

Dylai ymgynghori effeithiol hefyd sicrhau, cyn belled â phosib, **fod pawb perthnasol yn teimlo iddynt gael cyfle i ddweud eu dweud**, neu o leiaf ein bod wedi ystyried eu buddiannau.

3 Y broses ymgynghori

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Yn gwneud pob ymdrech i ddwyn yr ymgynghoriad at sylw pawb a allai fod â diddordeb ynddo.
- Fel arfer yn ymgynghori trwy ddogfen ymgynghorol.
- Yn sicrhau fod pob dogfen ymgynghorol ar gael yn ddi-drafferth ac yn rhad ac am ddim.
- Yn rhoi pob dogfen ar ein gwefan (www.ofwat.gov.uk) o amser eu cyhoeddiad.

Byddwn yn cyhoeddi datganiad i'r wasg neu ddatganiad tebyg ar gyfer pob ymgynghoriad.

Mae ein gwefan wedi'i chysylltu i Ukonline (www.ukonline.gov.uk) sef y man mynediad canolog ar y rhyngrwyd i wybodaeth gan y llywodraeth. Mae yma gofrestr ganolog o ymgynghoriadau ysgrifenedig cyhoeddus cyfredol. Os byddwch yn cofrestru gyda Ukonline, anfonir e-bost atoch pan fydd ymgynghoriad yn dechrau ar bwnc arbennig (gan gwmnïau nwy, trydan neu dŵr er enghraifft).

Mae'r rhyngrwyd yn bwysig, ond bydd copïau papur o'n dogfennau wastad ar gael. Bydd pob papur ymgynghorol yn cynnwys rhestr o bobl y byddwn wedi dweud wrthynt am yr ymgynghoriad. Yr ydym yn croesawu ymatebion oddi wrth unrhyw un sydd â diddordeb. Cysylltwch gyda ni am fanylion ynghylch ein rhestrau ymgynghorol.

Gallwn weithiau ddarparu dogfennau ymgynghorol mewn ieithoedd eraill os gofynnwch i ni. Lle bo hynny'n briodol, byddwn yn cyhoeddi dogfennau yn Saesneg a Chymraeg. Mae hyn yn unol â'n Cynllun Iaith Gymraeg.

Os oes gennych anghenion arbennig, gallwn ddarparu dogfennau ymgynghorol mewn fformatau eraill, er enghraifft mewn Braille neu brint mawr, os gofynnwch i ni.

Er bod ymgynghori ysgrifenedig yn bwysig, nid dyma'r unig ffordd na'r ffordd orau bob tro. Dyma'r dull traddodiadol ac mae sawl mantais iddo, ond byddwn hefyd yn ystyried dulliau eraill er mwyn cyrraedd pobl sydd â diddordeb yn effeithiol. Er enghraifft, byddwn yn ystyried cyfrannu erthyglau i gylchgronau perthnasol, a chynnal cyfarfodydd, gweithdai neu seminarau gyda sefydliadau neu unigolion – i egluro'r materion dan sylw ac i ddeall safbwynt pobl yn iawn.

Yr ydym yn cadw ein holl ymatebion i'n ymgynghoriadau yn ein llyfrgell oni chânt eu nodi fel rhai cyfrinachol. Os gofynnwch i ni gadw eich ymateb yn gyfrinachol, fe wnawn hyn yn unol â'r Cod Ymarfer ar Fynediad i Wybodaeth y Llywodraeth, ac o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, pan ddaw'r ddeddfwriaeth honno i rym.

Byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniadau terfynol, gan gynnwys ein rhesymau dros eu gwneud.

Os byddwch yn ymateb i'n ymgynghoriad, byddwn yn cydnabod eich ymateb ac yn anfon copi o'r ddogfen benderfyniadau atoch.

4 Yr Amserlen ar gyfer ymgynghori

Pan fyddwn yn cyflawni ein ymgynghoriadau, mae angen inni ganiatáu digon o amser i sefydliadau fedru ymgynghori gyda'u haelodau a phobl sydd â diddordeb. Er enghraifft, efallai y bydd Pwyllgorau Gwasanaethau Cwsmeriaid Ofwat (PGC) am gyfarfod gyda chwsmeriaid i holi eu barn.

Mae cod ymarfer y Llywodraeth yn argymell y dylai ymgynghoriadau cyhoeddus cenedlaethol barhau am 12 wythnos o leiaf. Yn y gorffennol, yr ydym wedi rhoi hyd at wyth wythnos ar gyfer ymgynghoriadau.

Mae nifer o'n ymgynghoriadau yn rhai mewn ymateb i ddigwyddiadau sydd ag amserlenni a bennwyd gan sefydliadau eraill, er enghraifft yn achos cyfuno cwmnïau lle mae'r amserlen wedi'i phennu gan y Swyddfa Masnach Deg. Ceir ymgynghoriadau eraill yng nghyswllt materion lle mai trwydded y cwmnïau dŵr sy'n pennu'r amserlen. Ac mae nifer o'n hymgynghoriadau nad ydynt yn ymdrin â phob cwr o Gymru a Lloegr.

Mewn ymateb i ganllawiau'r Llywodraeth yr ydym nawr wedi adolygu ein cyfnodau ymgynghori. Edrychwyd ar y materion yr ymdrinnir â hwynt yn ein ymgynghoriadau, ynghyd â'r amgylchiadau y cynhelir yr ymgynghoriadau oddi mewn iddynt. Yn unol â safonau'r Llywodraeth, byddwn yn caniatáu cyfnod ymgynghori o 12 wythnos os byddwn yn holi barn aelodau o'r cyhoedd ar faterion o bwys a fydd yn effeithio'n uniongyrchol arnynt ac ar yr ardal a reoleiddir gennym (Cymru a Lloegr). Byddwn hefyd yn defnyddio'r cyfnodau ymgynghori canlynol ar gyfer ymgynghoriadau eraill.

Teimlwn y bydd y cyfnodau ymgynghori hyn yn rhoi digon o amser i fudd-ddalwyr ymateb, tra'n lleihau effeithiau unrhyw oedi cyn gwneud penderfyniadau.

Byddwn yn ystyried ymestyn y dyddiad cau ar gyfer materion cymhleth.

Byddwn yn ymestyn cyfnodau ymgynghori i ganiatáu ar gyfer y Nadolig a gwyliau cyhoeddus eraill. Lle'n bosibl bydd y cyfnod ymgynghori yn cymryd amserlenni

cyfarfodydd rhanbarthol y PGC i ystyriaeth gan roi amser i'r Pwyllgorau hyn ymgynghori yn lleol.

Math o ymgynghoriad	**Cyfnod yr ymgynghori**
Ymgynghori ar faterion eang yn ymwneud â pholisi rheoleiddio.	12 wythnos fel arfer. Bydd angen i gyfnod yr ymgynghori gydnabod natur y mater dan sylw ac effaith unrhyw oedi cyn gwneud penderfyniad.
Ymgynghoriadau ar y broses a'r wybodaeth yr ydym ei hangen ar gyfer adolygu perfformiad blynyddol y cwmni a phennu prisiau.	Rhwng 8 a 12 wythnos
Diwygiadau trwydded arfaethedig yn codi o newidiadau i'r polisi rheoleiddio.	Rhwng 2 a 4 wythnos. (Bydd hyn fel arfer yn dilyn ymgynghoriad ar faterion eang yn ymwneud â pholisi rheoleiddio.)
Cais gan un cwmni i weithio o fewn ardal cwmni arall.	4 wythnos o leiaf.
Ymgynghoriadau ynghylch materion masnachol fel cyfuno cwmnïau, lle mae'r amserlen wedi'i phennu gan sefydliadau eraill.	Rhwng 2 a 4 wythnos.
Diwygiadau trwydded arfaethedig yn codi o faterion fel cyfuno cwmnïau neu newidiadau mewn deddfwriaeth.	Rhwng 2 a 4 wythnos.
Ymgynghori ar faterion polisi brys sydd o ddiddordeb i grwp neilltuol o fudd-ddalwyr.	Byddwn yn barnu pob achos yn unigol, gan gydnabod natur y mater dan sylw ac effaith unrhyw oedi cyn gwneud penderfyniad.

5 Dogfennau ymgynghorol

Bydd ein dogfennau ymgynghorol yn gryno ac wedi eu gosod allan yn glir. Byddwn yn defnyddio iaith syml lle bynnag y medrwn. O bryd i'w gilydd mae manylion technegol yn angenrheidiol – ond y nod yw bod ein dogfennau yn hawdd i'w deall.

Bydd ein dogfennau ymgynghorol yn cynnwys y canlynol:

- Crynodeb ysgrifenedig mewn Saesneg syml, yn tynnu sylw at y prif faterion.
- Disgrifiad o bwrpas ac amcanion yr ymgynghoriad.
- Y materion yr ydym yn holi barn pobl arnynt ar ffurf cwestiynau clir lle bynnag fo hynny'n bosibl.
- Meysydd a wnelo â mater yr ydym eisoes wedi gwneud penderfyniad arno.
- Manylion unrhyw gyngor yr ydym wedi'i dderbyn.
- Lle bo hynny'n briodol ac yn ymarferol, y costau neu'r manteision posibl a manylion ynghylch pwy sy'n debygol o gael eu heffeithio a sut.
- Lle bo hynny'n briodol ac yn ymarferol, asesiad o sut allai mater effeithio ar yr amgylchedd.
- Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion.
- Yr amserlen ar gyfer gwneud penderfyniadau a chyflwyno polisïau newydd.
- Manylion ynghylch pwy i gysylltu â hwynt am fwy o wybodaeth.
- Manylion ynghylch pwy fydd yn delio gyda chwynion neu sylwadau ar y broses ymgynghori.

- Byddwn yn gofyn i bawb fydd yn ymateb am eu henw neu am fanylion y corff y maen nhw'n ei gynrychioli. Bydd hyn yn ein helpu i gael darlun cytbwys o'r ymatebion. Byddwn hefyd yn gofyn am gopi electronig o bob ymateb. Ein nod yw rhoi y rhain ar ein gwefan.

- Manylion ynghylch pa rannau o Gymru a Lloegr y mae'r ddogfen yn sôn; ac a ydyw'n cynnwys cynigion sy'n gyfrifoldeb mwy nag un sefydliad.

- At bwy yn benodol y mae'r ymgynghoriad wedi'i anelu ynghyd â rhestr o bobl yr ydym wedi cysylltu â hwynt yn ei gylch.

- Geirfa.

6 Y ddogfen benderfyniadau

Bydd hon fel arfer yn cynnwys y canlynol:

- Crynodeb o'r holl ymatebion a gawsom ar bob mater.
- Ein penderfyniadau ar y rhain a'r eglurhad drostynt.
- Lle bo hynny'n briodol, manylion ynghylch sut fydd y materion a drafodwyd yn effeithio ar grwpiau arbennig fel y cwmnïau d^wr, neu grwpiau arbennig o gwsmeriaid (teuluoedd bach, mawr ac yn y blaen).
- Yr amserlen ar gyfer cyflwyno unrhyw newidiadau sy'n codi o'r ymgynghoriad.
- Manylion ynghylch pwy i gysylltu â nhw am fwy o wybodaeth.
- Rhestr o'r bobl a ymatebodd i'r ymgynghoriad

Os byddwch am i ni egluro unrhyw bwyntiau a wneir yn y papur hwn, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda'n Pennaeth Cysylltiadau Allanol, Julia Havard. Ffôn 0121 625 1450.